

O'R CYNRADD I'R
UWCHRADD

Eleri Ellis-Jones
Ysgol Bro
Myrddin



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Doedd gweithio mewn swyddfa byth wedi apelio at Eleri a'i nod oedd cael swydd lle'r oedd pob diwrnod yn cynnig profiadau gwahanol.

"Mae addysgu yn bendant yn cynnig hynny, mae hefyd yn gwneud i fi deimlo fy mod yn gwneud gwahaniaeth, yn ysbrydoli pobl a chael fy ysbrydoli gan eraill. Y sector gynradd a ddenodd fi yn wreiddiol, roeddwn wrth fy modd yn cyflwyno amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys celf, y dyniaethau a'r gwyddorau ac ar y pryd nid oeddwn yn awyddus i ganolbwyntio ar un pwnc."

Pam felly gwneud y naid i'r uwchradd?

"Rwyf wedi bod yn ffodus iawn yn ystod fy ngyrfa i fanteisio ar nifer o gyfleoedd, o ganlyniad rwyf wedi gweithio ar draws y cynradd, darlithio myfyrwyr, cael secondiad i weithio yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol a gweithio i'r consortiwm lleol.

"Roedd y cynllun pontio hwn yn gyfle i gael profiad arall - y sector uwchradd, lle nad oeddwn wedi dysgu mor belled!

"Mae'n braf erbyn hyn cael canolbwyntio ar un maes. Ond mae'r profiad cynt o weithio

yn drawsgrwicwlaidd yn bendant o gymorth wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Fel athrawon cynradd rydym yn hyblyg, yn greadigol, yn barod i fentro, ac yn gyfarwydd iawn â rôl fugeiliol y swydd, sydd yn bendant o gymorth yn yr uwchradd."

"Ac fel Cymraes, mae'n braf cael swydd lle caf ddefnyddio'r Gymraeg yn fy ngwaith bob dydd. Fy ngobaith yw bod y disgyblion hwythau yn gweld bod modd byw a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'i bod yn iaith fyw a chyffrous."

Mae cyngor Eleri i rai sydd yn ystyried ymgeisio am y cwrs pontio yn ddigon clir.

"Yr un yw'r nod ag yn y cynradd sef creu perthynas effeithiol gyda disgyblion ac awyrgylch bositif yn yr ystafell ddosbarth, lle maent yn hapus i fentro, i wneud camgymeriadau ac yn y pendraw yn gwireddu eu potensial.

"Ewch amdani, does dim byd i golli ac mae yn gyfle arbennig i ddatblygu yn broffesiynol."

#AddysguCymru
addysgwyr.cymru